

Tasg 1

Lluniau'r Nadolig (1)

1. Edrychwch ar y ddau lun a gwnewch nodiadau ynglŷn â'r hyn rydych chi'n ei weld ynddyn nhw.

2. Gwaith pâr:

Partner A: Disgrifiwch un o'r lluniau'n fanwl i'ch partner chi.

Partner B: Gwrandewch yn ofalus i weld ydy'ch partner chi'n anghofio cyfeirio at rywbeth yn y llun. Os ydyw, dywedwch wrtho / wrthi.

Gwnewch hyn eto, ond y tro yma, newidiwch rolau a defnyddiwch y llun arall.

3. Atebwch y cwestiynau hyn. Cofiwch roi rhesymau da bob tro.

Llun 1

- a. Pwy ydy'r bobl yn y llun, tybed?
- b. Pam maen nhw yma, tybed?
- c. Sut maen nhw'n teimlo, tybed?

Llun 2

- ch. Pwy ydy'r bobl yn y llun, tybed?
- d. Pam maen nhw yma, tybed?
- dd. Sut maen nhw'n teimlo, tybed?

4. Sut mae'r ddau lun yn debyg a sut maen nhw'n wahanol?
Trafodwch hyn gyda'ch partner a llenwch gridiau fel y rhai isod.

Mae'r lluniau'n debyg achos:	
Mae'r lluniau'n wahanol achos:	

Cymharwch eich syniadau chi mewn grŵp.